Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

**Hill View Terrace**
**Y Clâs**
**Abertawe**
**SA6 7HN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 173 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 27.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 37.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn lle hapus a chroesawgar ac mae'r pennaeth a'r staff yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a chofiadwy i'r disgyblion. Mae'n rhan greiddiol o'r gymuned leol a rhoddir pwyslais cryf ar bwysigrwydd siarad Cymraeg, ac i ymfalchïo yn niwylliant Cymru. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgar sy'n hyrwyddo gwerthoedd cadarn fel cwrteisi, parch, ac ymddygiad da yn llwyddiannus.

Mae perthynas waith annwyl a chynnes yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion ac anogir pob un i wneud eu gorau ymhob agwedd o'u gwaith. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn dda ac maent yn diwallu'n llwyddiannus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u dysgu.

Mae lles ac agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae bron bob un yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Mae disgyblion yn falch o fod yn rhan o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amrywiol gyfleoedd a gânt i gynnig syniadau a chael dylanwad uniongyrchol ar yr hyn maen nhw'n ei wneud. Er enghraifft, y disgyblion sydd wedi sefydlu'r dulliau rheoli ymddygiad a gwobrwyo sy'n cael effaith hynod gadarnhaol ar eu hagweddau at ddysgu ar draws yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn gyfoes ac yn cynnig ystod eang a chyffrous o brofiadau buddiol ac ysgogol i'r holl ddisgyblion. Mae'n datblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a digidol yn effeithiol ond nid oes bob amser ddigon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu darnau estynedig mewn ystod o gyd-destunau.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu deniadol a chartrefol i'r disgyblion. Mae'r adeilad yn newydd a phwrpasol ond nid yw staff wedi datblygu nac yn gwneud defnydd digon ysgogol o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion ym mhob dosbarth.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd cyfoethog i ysgrifennu darnau estynedig mewn ystod o gyd-destunau

A2 Datblygu a gwneud defnydd ysgogol o'r ardal allanol fel adnodd addysgu effeithiol i'r holl ddisgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r ffordd y mae wedi rhoi cyfrifoldeb ar y disgyblion i sefydlu dulliau rheoli ymddygiad a gwobrwyo, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Lleiafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i'r disgwyl, neu'n  uwch na'r disgwyl, am eu hoed. Mae'r gweddill yn meddu ar fedrau sy'n is na hynny. Er hyn, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, neu sydd o aelwydydd ag incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl yn datblygu'n dda iawn, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar yn y ddwy iaith. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, mae llawer yn datblygu patrymau iaith safonol yn gynnar iawn drwy sgwrsio, chwarae rôl a chymryd rhan mewn sesiynau llafar hwyliog yn rheolaidd. Mae medrau darllen llawer yn datblygu'n briodol ond, ar adegau, mae ychydig yn profi anhawster i ddarllen gyda rhuglder ac yn cael trafferth esbonio'n glir yr hyn maent yn ei ddarllen. O ystyried eu hoed a'u gallu, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n addas yn y ddwy iaith, lle bo'n briodol. Pan gânt gyfle, maent yn ysgrifennu darnau estynedig i safon dderbyniol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o fathemateg yn hyderus ac yn eu cymhwyso'n briodol mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, mae'r rheini sydd yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn dod i gyfri'n hyderus a deall bod rhif yn cyfleu gwybodaeth benodol. Ar frig yr ysgol, mae bron bob un yn defnyddio'u dealltwriaeth o'r pedair rheol a'u gwybodaeth am arian yn effeithiol, er enghraifft i gyfrifo sut mae chwyddiant wedi cael effaith ar brisiau nwyddau dros y degawdau.

Mae bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus ar gynhyrchu dogfennau a chyflwyniadau electronig o fewn prosiectau o'u dewis nhw, yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dadansoddi taenlenni'n fedrus drwy ddefnyddio fformiwlâu i gyfrifo a chreu graffiau i gyfleu data am faterion fel cyfartaledd mesuriadau.

Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a'u medrau ehangach yn ystyrlon, yn briodol ac i bwrpas mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, yn dilyn eu hymweliad ag un o brif heolydd siopa Treforys, bu disgyblion un o ddosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn labelu ffotograffau o'r gwahanol adeiladau dros y degawdau. Buont yn ysgrifennu rhestrau siopa ac ymarfer eu dealltwriaeth o arian i gyfrifo prisiau'n gywir. Defnyddiodd rai eu dealltwriaeth o siapiau tri dimensiwn i greu modelau o siopau a dod o hyd i enwau ar eu cyfer. Casglodd y disgyblion ddata am y gwahanol fathau o siopau a'u harddangos mewn gwahanol ddulliau fel siart rhicbren neu graff yn llwyddiannus. Bu'r holl ddisgyblion yn ysgrifennu ffeithiau syml am y stryd.

Bu disgyblion yn un o ddosbarthiadau canol yr ysgol yn dysgu am yr ‘Afon Tawe’. Ymchwiliodd y disgyblion i hanes yr afon ar y we a chreu cerdd ddosbarth drawiadol yn seiliedig ar eu hymweliad â’r afon ym Mhontardawe. Yna, buont yn edrych am enghreifftiau eraill o enwau lleoedd sy’n dechrau gyda’r gair ‘Pont’. Ysgrifennodd lawer straeon creadigol ar chwedl ‘Morwyn Llyn y Fan’ lle mae tarddiad yr afon. Ar ôl arsylwi ar gylchoedd yn lledaenu wrth daflu cerrig i’r afon, bu llawer yn edrych ar briodoleddau gwahanol siapiau. Bu eraill yn amcangyfrif a mesur cyfaint a chynhwysedd yn fedrus. Creodd eraill lun o afon gan ddefnyddio sialc, a chynllunio a chreu model o bont.

Fel rhan o’r thema ‘Degawdau’, ymwelodd disgyblion ar frig yr ysgol â chapel enwog Y Tabernacl yn Nhreforys. Dyfeision nhw gwestiynau i’w holi er mwyn canfod mwy o wybodaeth hanesyddol am yr adeilad eiconig hwn, a chofnodi’r ymatebion maes o law. Ar ôl clywed bod gan Daniel James (Gwyrosydd), awdur geiriau’r emyn Calon Lân, gysylltiad agos â’r capel, ymchwiliodd y disgyblion a darganfod mwy o ffeithiau amdano i greu proffiliau ohono i’w rhannu â’u cyfoedion. Wrth astudio’r capel ei hun, bu’r disgyblion yn defnyddio’u dealltwriaeth o onglau a siapiau i greu lluniau o wahanol elfennau fel yr organ, y ffenestri neu’r nenfwd. Defnyddiodd eraill hen ffotograffau o’r adeg pan adeiladwyd y capel a’u gosod yn gywir ar linell amser. Er mwyn ymarfer eu medrau digidol, recordiodd y disgyblion yr emyn Calon Lân mewn gwahanol arddulliau a rhoi mynediad i eraill eu clywed gan ddefnyddio codau QR yn llwyddiannus.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles ac agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae’r perthnasoedd gwaith cynnes ac effeithiol sy’n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn sicrhau bod bron bob un yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Maent yn dangos ymdeimlad o falchder a gofal i'w hysgol a'u cymuned leol, ac yn defnyddio’u llais yn effeithiol i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu gweithgareddau, wrth weithio’n annibynnol, ac wrth chwarae gyda’u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae’r rhan fwyaf yn dyfalbarhau’n gyson, yn arbennig wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio’n dda am gyfnod estynedig wrth ddatrys problemau wedi eu seilio ar rifau Rhufeinig. Os yw disgyblion yn wynebu anhawster â’u tasgau, maent yn trafod gyda’u cyfoedion gyntaf cyn gofyn am gymorth gan oedolion. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hynod gadarnhaol mewn sefyllfaoedd sy’n effeithio ar eu lles emosiynol ac yn gwerthfawrogi’r cyfle i fynychu’r Ystafell Dawel i’w cynorthwyo, pan fo angen. Mae bron bob un yn gwerthfawrogi cyfraniad yr holl staff i’w lles ac yn datgan eu bod yn eu helpu i deimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan lawer ddealltwriaeth dda o ddiogelwch ar-lein ac maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fo’i angen arnynt. Maent yn teimlo’n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol ac yn hyderus bod oedolion yn ymdrin yn gyflym ag unrhyw achosion honedig o fwlio.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd cadw’n iach a heini. Maent yn frwdfrydig a gweithgar yn ystod gwersi addysg gorfforol ac yn mwynhau cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon, fel y clwb aml sgiliau. Mae

ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd diet cytbwys, gan gynnwys bwyta amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, ac yfed dŵr yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aeddfedu i fod yn unigolion iach a hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o'u gwaith ar amrywiaeth a hawliau plant. Mae'r rhan fwyaf yn deall am bwysigrwydd cynnal gweithgareddau i gefnogi eraill ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn codi swm sylweddol i gefnogi elusennau amrywiol trwy nifer o weithgareddau ymarferol, fel gwisgo mewn dillad llwyd a thrwy gynnal boreau coffi. Mae hyn yn dwysáu ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

Mae'r egwyddor o wrando ar lais y disgybl wedi ei sefydlu'n gadarn yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'n fawr yr amrywiol gyfleoedd cyson a gânt i gynnig syniadau a chael dylanwad uniongyrchol ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu. Un enghraifft lwyddiannus, sydd bellach wedi gwreiddio ar draws yr ysgol, yw'r 'Awr Fawr' ble mae disgyblion yn dewis cwestiwn i ymchwilio iddo ac yna'n creu cyflwyniad o'u cywaith gorffenedig. O ganlyniad, maen nhw'n datblygu eu medrau cydweithio, ymchwilio a'u medrau meddwl yn gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain yn aeddfed, gyda nifer yn aelodau brwd o amrywiaeth eang o gynghorau ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau'n hyderus ac yn cynnig rhesymau synhwyrol dros wneud penderfyniadau penodol. Maent yn adrodd yn ôl i'w cyfoedion am eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod arweinwyr yn gwrando ar eu barn. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi sefydlu 'Wal Waw' i ddathlu doniau a chyflawniadau arbennig. Yn ogystal, mae aelodau'r cyngor ysgol yn hynod falch o'u hawgrym i ffurfio 'llwybr codi calon', sy'n gyfres o wynebau bach ar hyd y coridorau i wneud disgyblion, staff ac ymwelwyr i deimlo'n hapus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol, sef 'Agor Drysau', yn gynhwysol, ac yn cynnig ystod eang a chyffrous o brofiadau buddiol ac ysgogol i'r holl ddisgyblion. Mae hwn wedi ei wreiddio, ac yn ymgorffori egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio a chynllunio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog, heriol ac addas i'r disgyblion. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo eu dysgu annibynnol yn fwriadus yn yr holl feysydd dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae athrawon a chymorthyddion yn ystyried syniadau'r disgyblion wrth gynllunio'r themâu, sy'n sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dros yr hyn maent yn ei ddysgu.

Mae perthynas waith hynod effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol i ddisgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda ac yn eu diwallu'n llwyddiannus. Mae hyn yn meithrin parch ac ymddiriedaeth rhwng y disgyblion, y staff

a'r rhieni. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus i ofyn am gymorth gyda'u dysgu, pan fo angen. Mae hyn yn creu amgylchedd gweithredol a chefnogol ar draws yr ysgol.

Nodwedd amlwg arall o waith yr ysgol yw'r modd mae athrawon a chymorthyddion yn annog disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae bron bob aelod staff yn modelu iaith yn fwriadus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu ystod o brofiadau cynhwysfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol drwy ddarparu themâu trawsgwricwlaidd. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn cynllunio a threfnu taith i Lundain. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd, cyfathrebu drwy e-bost a'u defnydd ymestynnol o fformiwlâu mewn taenlenni mewn sefyllfa bywyd go iawn yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio digon o gyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ysgrifennu darnau estynedig mewn ystod o gyd-destunau.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu deniadol a chartrefol i'r disgyblion mewn adeilad newydd a phwrpasol. Mae staff yn defnyddio ardaloedd penodol o'r adeilad yn greadigol i gefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff wedi dechrau datblygu'r ardaloedd allanol, a sefydlu llecynnau fel llwyfan berfformio, cegin fwd ac ardal gyfrif i'r disgyblion ieuengaf. Fodd bynnag, nid ydynt wedi datblygu nac yn gwneud defnydd digon ysgogol o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion ym mhob dosbarth.

Ym mron bob dosbarth, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau yn bwrpasol ac ysgogol i ddisgyblion. Maent yn esbonio'u disgwyliadau yn glir ac yn cyflwyno ac ailadrodd geirfa goeth yn llwyddiannus i gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion. Maent yn eu holi'n fedrus gan ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau priodol i ddwysáu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Er enghraifft, yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn cyflwyno geirfa a phatrymau brawddegau safonol i ddisgyblion mewn ffordd hwyliog. Mae hyn yn annog y disgyblion sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt i ddechrau defnyddio geiriau ac ymadroddion syml wrth gyfathrebu.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, drwy gymryd rhan yn rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Cymru, mae'r ysgol yn trefnu teithiau tramor i wledydd amrywiol i ddisgyblion ar frig yr ysgol yn flynyddol. Mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion mewn mannau y tu allan i'w milltir sgwâr, gan ehangu eu gorwelion a'u hannog i fod yn ddinasyddion ystyriol, gwybodus ac egwyddorol.

Mae gan yr ysgol raglen lwyddiannus i hyrwyddo cyfeillgarwch, parch a heddwch rhwng pobl o wahanol ddiwylliannau, ffordd o fyw, ffydd a chredoau. Mae hon yn rhan greiddiol o'u rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hyn yn annog disgyblion i fod yn oddefgar o'u cyfoedion, ac i ddeall egwyddorion diwylliannau, crefyddau a chymunedau eraill o fewn y gymdeithas.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar yn fedrus i esbonio'r hyn mae disgyblion wedi ei wneud yn dda, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae llawer hefyd, lle bo'n briodol, yn darparu adborth ysgrifenedig addas iddynt. Mae hynny'n galluogi disgyblion i wneud gwelliannau priodol, lle bo angen.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar sy'n hyrwyddo gwerthoedd cadarn fel cwrteisi, parch, ymddygiad da a Chymreictod yn hynod lwyddiannus. Maent yn sicrhau nad yw effaith cyfyngiadau ariannol teuluol yn rhwystro disgyblion rhag manteisio ar bob cyfle a ddarperir iddynt. Mae'r ysgol wedi rhoi cyfrifoldeb ar y disgyblion i sefydlu dulliau rheoli ymddygiad a gwobrwyo sy'n cael effaith hynod gadarnhaol ar eu hagweddau at ddysgu ar draws yr ysgol. Mae hon yn rinwedd nodedig o waith yr ysgol.

Mae perthynas waith annwyl a chynnes yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, ac mae staff yn annog pob disgybl i wneud eu gorau ymhob agwedd o'u dysgu. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn diwallu anghenion dysgu, lles emosiynol a chymdeithasol unigol bron bob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi disgyblion ymhellach gyda'u hanghenion lles a dysgu. Mae staff yn darparu cyfres o weithdai penodol sy'n arfogi rhieni i gefnogi eu plant gyda'u dysgu. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer eu plant a'r cymorth a gânt fel teuluoedd.

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfle iddynt rannu eu teimladau wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore trwy ddefnyddio dyfais electronig. Mae staff yn ymateb i unrhyw faterion o gonsyrn sy'n amlygu eu hunain yn gyflym ac yn darparu cefnogaeth briodol, yn ôl yr angen.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag ADY yn hynod gadarn. Mae'r cydlynydd ADY a'r cymorthyddion yn hynod frwdfrydig am eu cyfrifoldebau wrth gefnogi disgyblion. O dan arweiniad medrus y cydlynydd, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Er enghraifft, mae'n cydweithio ag athrawes arbenigol darpariaeth i blant byddar yr awdurdod lleol i gynorthwyo a chefnogi disgyblion sydd ag anawsterau clyw. Mae staff yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn adnabod y rheini sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn darparu ystod eang o raglenni cefnogi i ddatblygu eu medrau siarad, darllen, lles a chymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cefnogaeth ychwnaegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Fel rhan o'i darpariaeth i hybu iechyd corfforol a lles emosiynol disgyblion, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau llwyddiannus, fel yr 'wythnos lles a ffitrwydd' a gynhelir yn flynyddol. Caiff disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau dawnsio a sesiynau ffitrwydd gydag adran chwaraeon yr awdurdod lleol, er enghraifft. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu disgyblion i fod yn unigolion iach a hyderus.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd cyfoethog i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant. Mae'r ysgol yn ganolbwynt ei chymuned a manteisir yn llawn ar gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau yn yr ardal leol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal prosiect sy'n seiliedig ar yr ardal

leol o'r enw 'Caru Cynefin' yn flynyddol. Mae hyn yn caniatáu i'r disgyblion ddod yn gynyddol ymwybodol a gwybodus am hanes eu hardal leol. O ganlyniad, maent yn ymfalchïo yng nghyfoeth diwylliannol a thraddodiadau eu milltir sgwâr.

Mae cyfnodau cyd-addoli'n darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau moesol ac ysbrydol yn llwyddiannus. Mae'r cyfnodau hyn yn eu hannog i fyfyrio'n dawel ar agweddau ysbrydol a chrefyddol. Maent yn hybu disgyblion i ystyried gwerthoedd pwysig fel balchder wrth ganu cân unigryw yr ysgol gydag angerdd yn y gwasanaeth boreol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i hybu presenoldeb disgyblion. Mae'r pennaeth, yr athrawon, y cymorthyddion a'r ysgrifenyddes yn cydweithio'n fwriadus gyda theuluoedd a'u cefnogi'n effeithiol pan mae presenoldeb neu brydlondeb yn bryder. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol, gan sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o bolisïau a phrosesau amddiffyn plant. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn angerddol am ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a chofiadwy i'r disgyblion. Mae ganddo ef, a'r arweinwyr eraill, weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar bwysigrwydd cydweithio fel cymuned i greu amgylchedd ddysgu hapus, diogel a chefnogol i ddisgyblion. Rhoddir blaenoriaeth gadarn ar ddatblygu unigolion moesol a chydwybodol, sy'n barod i fod yn ddinasyddion cydwybodol Cymreig ac sydd â'r medrau i lwyddo yng Nghymru a'r byd ehangach. Maent yn cyfleu'r weledigaeth honno'n glir i'r disgyblion, y staff, y rhieni, y llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned leol.

Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn gymharol newydd i'w rôl ac mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i'w datblygu'n raddol er mwyn eu cefnogi i ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'u cyfrifoldebau arwain. Mae'r pennaeth, aelodau'r uwch dîm arwain a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac o'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol i'r disgyblion a'r staff. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro lles yr holl ddisgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r pennaeth yn rheoli perfformiad y staff yn barhaus i ganmol eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso priodol. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu gweinyddu, yn arbennig y rheini sydd â chyfrifoldeb am arwain meysydd penodol. Mae'r llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni hefyd yn cyfrannu atynt yn achlysurol. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun lled gywir o'r sefyllfa gyfredol. Mae'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt yn cyfrannu'n benodol at osod blaenoriaethau i'r cynllun datblygu ysgol. Mae gweithdrefnau'r ysgol i hybu gwelliant yn gynhwysfawr ac yn anelu at sicrhau gwelliannau yn y meysydd y nodir eu bod yn flaenoriaethau. Er hyn, ar adegau, mae arweinwyr yn cyflwyno gormod o brosiectau a darpariaethau heb ddadansoddi eu heffaith ar safonau a chynnydd disgyblion yn benodol. O

ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwybod yn union pa rai sydd fwyaf effeithiol i godi safonau.

Seilir gweithgareddau dysgu proffesiynol staff ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â'u hanghenion proffesiynol penodol nhw. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n ddiweddar ar gynnwys hyfforddiant rheolaeth ganol i aelodau'r uwch dîm arwain, a chymhwysedd digidol, diogelu, lles emosiynol, addysgu yn yr ardal allanol, ac agweddau penodol o rifedd a llythrennedd i'r holl staff. Maent yn dechrau monitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y ddarpariaeth a'r dulliau addysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i staff arsylwi ar arferion llwyddiannus ei gilydd ac i'w rhannu â staff ysgolion eraill.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn cynnal trafodaethau â staff ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso'r hyn sy'n digwydd yno. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu'r blaenoriaethau strategol ac i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i gyflogi staff i hybu'r dysgu a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol â nhw i'w galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Lle bo'n briodol, maent yn rhoi cyfleoedd i rieni fynegi barn am y ddarpariaeth ac yn ymateb yn amserol i'w sylwadau. Er enghraifft, er mwyn hwyluso prosesau cyfathrebu, mae'r ysgol bellach yn defnyddio dull electronig i rannu gwybodaeth â rhieni am yr hyn mae eu plant yn ei gyflawni yn yr ysgol. Mae'r gymdeithas rheini ac athrawon, sy'n weithgar dros ben yn codi arian i gefnogi'r ysgol, hefyd yn fforwm defnyddiol i gryfhau'r cyswllt rhwng y rheini a'r ysgol.

Mae arweinwyr meysydd dysgu yn cydweithio'n agos ag athrawon yr ysgolion eraill sy'n bwydo Ysgol Gyfun Bryntawe i gynllunio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod disgwyliadau arweinwyr y clwstwr hwn o ysgolion yn gyson.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024